| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Podlediad Radio |
| Disgrifiad: | Pwysigrwydd radio i Dylan Thomas a'i waith ac i'r Ail Ryfel Byd yn gyffredinol. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**<br>*** Cydweithio a thrafod**<br>Bl3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp<br>Bl4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb<br>Bl5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp<br>Bl6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt<br>• codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau |
| Testun Dylan Thomas | Sain o *Return Journey* neu *Dan y Wenallt/Under Milk Wood* |
| Offer angenrheidiol: | • Oes rhaid i chi wrando ar Dylan Thomas?<br>http://www.bbc.co.uk/guides/z3mqq6f<br>• Y Dywysoges ar *Children's Hour* yn siarad â faciwîs<br>http://www.bbc.co.uk/archive/princesselizabeth/6600.shtml<br>• Chamberlain yn cyhoeddi ein bod ni'n rhyfela<br>http://www.bbc.co.uk/schoolradio/subjects/history/ww2clips/speeches/chamberlain_declares_war<br>• Churchill yn cyhoeddi bod yr Ail Ryfel Byd ar ben<br>https://www.youtube.com/watch?v=lq-zjE1yfDM |
| Trefn a awgrymir: | • Trafodwch bwysigrwydd radio yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd y llywodraeth yn ystyried bod adloniant ym Mhrydain yn bwysig gydol yr Ail Ryfel Byd gan ei fod yn rhan o 'normalrwydd' ac yn arwydd bod popeth yn mynd yn dda yn y rhyfel. Roedd yn cael ei ddefnyddio i gadw ysbryd pobl yn uchel. Roedd y teledu wedi cael ei ddyfeisio yn y 1930au ond ychydig iawn o bobl allai fforddio set deledu. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar y sinema a radio.<br>• Gwrandewch ar y Dywysoges Elizabeth, Chamberlain a Churchill yn siarad. Trafodwch pa mor effeithiol oedd pob darllediad. Pa elfennau o'r iaith a'r areithio sy'n eu gwneud yn bwerus?<br>• |

| | |
|---|---|
| | • I Dylan, roedd y radio'n cynnig gwaith cyson ac roedd ei waith yn addas i'r cyfrwng oherwydd ei natur rythmig a cherddorol. Y dysgwyr yn gwrando ar glip o un o ddramâu radio Dylan fel *Under Milk Wood* neu *Return Journey* a thrafod pam mae mor hawdd gwrando arnyn nhw, yn eu barn nhw. (Ar wefan y BBC *Do you have to Listen to Dylan Thomas?* mae cyfweliadau a chlipiau gwych a allai fod yn sail i drafodaeth)<br>• Ar ôl ystyried beth sy'n gwneud darllediad radio da a beth sydd angen arno achos nad oes elfen weledol, mae'r dysgwyr yn creu eu podlediadau eu hunain sy'n cyhoeddi dechrau'r rhyfel, bod y rhyfel wedi'i ennill, neu'n rhoi adroddiad ar y Blitz. |
| Gweithgaredda u estyn: | Gellid ychwanegu cerddoriaeth ac effeithiau sain at y podlediadau gan ddefnyddio ap fel *Garage Band*. Hefyd gallai'r dysgwyr baratoi sioe sleidiau o ddelweddau amser rhyfel i'w gosod yn haen dros y podlediad. *iMovie* neu *Puppet Pals*. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gallai dysgwyr gwaelod Cyfnod Allweddol 2 greu podlediad o drawsgrifiad o ddarn o radio sy'n bodoli'n barod. |